# SL(6)607 – Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) a Defnyddiau Bwyd Anifeiliaid a Fwriedir at Ddibenion Maethol Penodol (Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354) (Cymru) (Diwygio) 2025

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân gywiriadau i Reoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) a Defnyddiau Bwyd Anifeiliaid a Fwriedir at Ddibenion Maethol Penodol (Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354) (Cymru) 2024.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Craffu ar Rinweddau

Nodwyd y 2 bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn fod y Rheoliadau hyn yn mynd i'r afael â gwallau a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Reoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) a Defnyddiau Bwyd Anifeiliaid a Fwriedir at Ddibenion Maethol Penodol (Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354) (Cymru) 2024.

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod wedi'i thorri (h.y. y confensiwn y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 26 Mawrth 2025. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y llythyr:

> *Yn ei adroddiad i Reoliadau 2024, SL(6)554, cododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad 10 pwynt adrodd technegol mewn perthynas â Rheoliadau 2024, a chytunodd Llywodraeth Cymru y dylid cywiro mân wallau a nodwyd mewn saith o'r pwyntiau. Mae Rheoliadau 2025 yn gwneud y cywiriadau hynny.*
>
> *Ystyrir bod mynd yn groes i'r confensiwn yn angenrheidiol ac yn gyfiawnadwy oherwydd rhagwelir y bydd y pwerau galluogi y mae Gweinidogion Cymru yn dibynnu arnynt i wneud y saith cywiriad yn cael eu dirymu ar 01 Ebrill 2025 drwy weithredu Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cynhyrchion Rheoleiddiedig) (Diwygio, Dirymu, Darpariaeth Ganlyniadol a Throsiannol) 2025 ("yr OS Diwygio" - sydd wedi'i osod fel fersiwn ddrafft gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd). At hynny, mae rhai o'r cywiriadau a wnaed gan Reoliadau 2025 yn ymwneud â thestun yr awdurdodiadau sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau 2024 a gaiff eu dirymu (yn amodol ar ddarpariaeth arbedion) gan yr OS Diwygio Cynhyrchion Rheoleiddiedig. Mae angen i'r cywiriadau i Reoliadau 2024 fod mewn grym cyn i'r darpariaethau gael eu dirymu, a hynny er mwyn sicrhau bod yr awdurdodiadau yr effeithir arnynt yn cael eu 'cadw' yn briodol fel y'u cywirwyd.*

Nodwn fod Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cynhyrchion Rheoleiddiedig) (Diwygio, Dirymu, Darpariaeth Ganlyniadol a Darpariaeth Drosiannol) 2025 wedi dod i rym ar 1 Ebrill 2025.

Roedd Erthygl 9(1) o Reoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion sydd i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid yn cynnwys pŵer galluogi yr oedd Gweinidogion Cymru yn dibynnu arno i wneud y Rheoliadau hyn ac mae'r Erthygl honno wedi'i diwygio gan reoliad 3(6) o Reoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cynhyrchion Rheoleiddiedig) (Diwygio, Dirymu, Darpariaeth Ganlyniadol a Darpariaeth Drosiannol) 2025.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 28 Ebrill 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.